Llawlyfr Meithrinfa Dwylo Da

Meithrinfa Dwylo Da Cyf

1 Heol Buddug

Penygroes

Caernarfon

Gwynedd

LL54 6HD

01286 882 552

07398545083

Ffurflen Gofrestru am Ofal Plentyn

Manylion eich plentyn.

Enw Plentyn
Cyfeiriad
Dyddiad Geni
Gwryw / Benyw

Manylion Rhieni/gofalwyr

Enwau
Cyfeiriad
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn cartref
Safle a rhif ffôn rhiant neu ofalydd
Rhif ffôn symudol rhiant neu ofalydd

Manylion cyswllt mewn argyfwng

Enw
Cyfeiriad
Rhifau ffôn
Perthynas â'r plentyn
Enw Meddyg Teulu
Cyfeiriad y meddyg
Rhif ffôn y meddyg

Er nad yw'n bolisi gan y Feithrinfa i gyflwyno unrhyw fath o feddyginiaeth i'r plant dim ond ar ôl cytundeb ysgrifenedig gyda'r rhieni/gofalwyr (gweler Polisi Cyflwyno Meddyginiaeth a'r ffurflen cyflwyno meddyginiaeth), a ydych yn rhoi eich caniatad i'r staff / meddyg neu broffesiynolyn iechyd cymwys i drin neu gyflwyno meddyginiaeth brys i'ch plentyn os y bydd gofyn gwneud hynny pe na bai'n bosibl i ni gysylltu â chi.

Ydwyf ☐
Nacydwyf ☐

Ticiwch y blwch perthnasol os gwelwch yn dda.

CADARNHAD O GADW LLE AM OFAL PLENTYN

Annwyl (enw rhiant/gofalydd)

Cadarnhaf bod lle wedi ei gadw ar gyfer:- (enw'r plentyn/plant)

……

am ofal yn unol a'r hyn sydd wedi ei nodi yn y Cytundeb ffurfiol rhyngom.

Arwyddwyd:- ……

Swydd:- ……
(Rheolydd Meithrinfa Dwylo Da neu Ddirprwy)

Dyddiad:- ……

Llawlyfr Meithrinfa Dwylo Da Cyf.

Croeso i Feithrinfa Dwylo Da!

Agorwyd Meithrinfa Dwylo Da Cyf. ym Mehefin 1997

Mae'r corff wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, o dan adain Llywodraeth Cymru a cheir arolwg rheolaidd o'r gwasanaeth. Darperir gofal dydd ar gyfer 24 o blant rhwng 3 mis a 5 oed rhwng dydd Llun a ddydd Gwener 0800-1800

Nôd ac Amcanion y Feithrinfa

Nôd Meithrinfa Dwylo Da yw darparu gwasanaeth gofal dydd o safon uchel. Rydym fel rhan o'r gwasanaeth hwn, lle mae modd, yn danfon a chasglu plant i ysgol leol i fynychu sesiynau meithrin ac addysgiadol trwy drefniant sydd wedi ei gytuno arno rhwng y rhieni/gofalwyr â'r ysgol yn ddyddiol.

Mae'r holl o'n gweithgareddau yn cyd-fynd â gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal mewn meithrinfeydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Anelir at:

- Ddarparu a datblygu cyfleuster gofal plant dibynadwy am bris teg ac o safon uchel;
-
- Darparu amgylchedd diogel a hapus, sy'n llawn o brofiadau boddhaol cyfoethog wedi eu cynllunio'n ofalus ac sy'n ysgogi plant i chwarae, cyflawni a chael hwyl;
- Cynnig cyfleuster i rieni a fydd yn eu galluogi i wella'u cyfleoedd i gymeryd mwy o ran yn y farchnad waith;
- Darparu gwasanaeth sy'n ateb anghenion y gymuned;
- Sicrhau hyfywdra ariannol a pharhad y Feithrinfa.

Hyderwn fel Bwrdd Rheoli a staff y caiff eich plentyn / plant fudd a llawer iawn o hwyl wrth ddefnyddio'r Feithrinfa, ac y cewch chwithau fel rhieni/gofalwyr gysur o'r ffaith bod eich plentyn/plant yn saff a'u bod yn cael eu hysgogi a'u hybu ar

sawl agwedd i sicrhau patrwm byw iach trwy chwarae a dysgu, cymdeithasu ac ymlacio, mewn awyrgylch braf a diogel.

Casglu Data:

Mae Meithrinfa Dwylo Da yn ymrwymo i sicrhau prosesu diogel a theg o unrhyw ddata a dderbyniwn a byddwn yn cydymffurfio â Gofynion Rheoli Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR) ar bob achlysur. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn ystod cyn-ofal a gofal pob plentyn i alluogi'r Feithrinfa i ddarparu gwasanaeth priodol ac nid at unrhyw ddiben arall.

Yn unol â rheoliadau cadw gwybodaeth gofal plant, caiff y wybodaeth ei gadw tan i'r plentyn droi'n 25ain oed.

O bryd i'w gilydd, mae'n ofynnol arnom yn gyfreithiol i rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhai o asiantaethau'r Llywodraeth megis Arolygiaeth Gofal Cymru, sef y corff sy'n cofrestru, yn arolygu ac yn gweithedu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal yng Nghymru a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar brydiau pan fo angen ynghyd â phroffesiynolyddion meddygol mewn argyfyngau.

Pwrpas y Llawlyfr

Mae'r Llawlyfr hwn wedi ei gynhyrchu i gyflwyno Meithrinfa Dwylo Da i chi'r defnyddwyr er sicrhau eich bod yn ymwybodol o drefniadau mewnol y corff. Mae ei gynnwys yn adlewyrchu ein ffordd o weithredu sy'n cyd-fynd â gofynion Safonau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal mewn meithrinfeydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Y Staff

Person cofrestredig: Ann Thomas
Person mewn gofal: Sophie Wyn Owen

Telir cyflogau'r staff o'r ffioedd yr ydych chi fel rhieni/gofalwyr yn eu talu am y gwasanaeth.

Mae'r staff wedi cymhwyso'n briodol neu yn dilyn hyfforddiant yn unol â gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru.

Gwirir y staff yn unol â rheoliadau gofynnol sy'n cynnwys gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r Feithrinfa'n cyflogi Rheolydd llawn amser.

Awyrgylch, Staff a Gweithgareddau

Cydnabyddir bod rhieni/gofalwyr a phlant yn elwa o wasanaeth gofal sydd wedi ei drefnu a'i gynllunio yn dda.

Mae'r Staff yn gwneud eu gorau o'r gofod a'r adnoddau sydd ganddynt er mwyn bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Defnyddir yr holl adeilad. Bydd aelod o staff gyda phob pentyn sy'n defnyddio'r toiledau ond caniateir mwy o annibyniaeth fel bo'r plentyn yn datblygu a hynny o dan oruchwyliaeth. Nid oes mynediad gan y plant i'r gegin nac ystafell y staff. Defnyddir yr ardd gefn gaeedig ar gyfer gweithgareddau wedi eu goruchwylio.

Mae'r Staff yn cael eu cyflogi'n effeithiol er sicrhau diogelwch, lles a datblygiad y plant.

Anelir at sicrhau awyrgylch braf ar gyfer y plant i ymlacio, cymeryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a datblygiadol ac anogir cymdeithasu, cyfeillgarwch a pharch tuag at eraill.

Mae'r staff yn cadw cofnodion ar gyfer pob plentyn yn unigol ac maent ar gael i'w rhannu gyda rhieni/gofalwyr y plentyn trwy ganiatad y Bwrdd Rheoli ac eithrio os byddai hynny'n gosod lles y plentyn mewn perygl.

Croesawir fewnbwn rhieni/gofalwyr er sicrhau bodloni anghenion pob plentyn yng ngofal y Feithrinfa.

Datganiad o Ddiben

Dyma drefniadau mewnol Meithrinfa Dwylo Da:-

Bydd y Feithrinfa ar agor rhwng 0800 a 1800 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar gau ar bob gwyl banc a phenwythnosau.

Mae'r Feithrinfa ar gau ar ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a dydd Calan – bydd y Feithrinfa ar agor rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Yr Adeilad

Mae'r Feithrinfa wedi ei lleoli yng nghanol pentref Penygroes.

Mae Meithrinfa Dwylo Da yn gweithredu o adeilad un-llawr sydd wedi ei adeiladu'n arbennig ar gyfer y gwasanaeth penodol yma.

Ceir un ystafell fawr sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y gweithgareddau ac ar gyfer bwyta gyda phob ystafell arall yn mynd oddi ar y brif ystafell yma.

Mae murlun ar wal allanol yr adeilad – datblygwyd y murlun gyda chefnogaeth arian grant gyda chydweithrediad arlunydd lleol a mewnbwn plant yr ardal. Mae'n lliwgar, diddorol a chroesawus.

Y Cyntedd

Mae cyntedd ar flaen y Feithrinfa sy'n cael ei ddefnyddio fel prif fynediad ac fel man casglu.

Cedwir cotiau a bagiau'r plant yma.

Mae'r drws allanol wedi ei gloi trwy gydol yr amser – nid oes modd i unrhyw un ddod i mewn i'r Feithrinfa o'r tu allan heb ganu'r gloch a chael aelod o'r staff i agor y drws iddynt.

Mae drws o'r cyntedd i'r brif ystafell sydd ar glo trwy'r amser – nid oes modd i unrhyw un ddod i mewn i'r brif ystafell o'r cyntedd heb i aelod o'r staff agor y drws iddynt.

Rhaid i pawb sy'n ymweld â'r Feithrinfa arwyddo llyfr ymwelwyr.

Ni all unrhyw un ymweld heb drefniant blaenorol gyda'r Rheolydd.

Prif Ystafell

Mae'r brif ystafell yn cael ei rhannu i gyd-fynd ag oedran y plant a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal a gwahennir y rhannau yma gyda gwahanfur.
Mae'r babanod ar un ochor o'r gwahanfur a'r plant hŷn ar yr ochor arall.
Lleolir y byrddau bwyta a'r gweithgareddau peintio, gludo a thywod ar y llawr leino.
Dilynnir strwythyr dyddiol ar gyfer gweithgareddau'r dydd, gall hyn gynwys canu, stori, gwaith ffeil, lliwio, rhifau, gweithgareddau fel peintio, gludo, chwarae rôl , tŷ bach a symud i gerddoriaeth gan ddilyn rhannau o weithgareddau o'r cyfnod sylfaen.
Trefnir y plant mewn grwpiau bychan i chwarae.

Llofft

Mae cotiau addas ar gael yn y llofft.
Mae gan pob plentyn ddillad gwely glân personol sy'n cael eu golchi'n rheolaidd.
Mae'r plant hŷn yn cysgu ar welyau pwrpasol ac mae ganddynt hwythau hefyd ddillad gwely glan personol.
Cedwir tegannau y babanod yma.
Mae monitor gwrando a fideo yn y llofft gyda'i dderbynnydd yn y brif ystafell er galluogi'r staff i glywed a gweld unrhyw gynwrf yn y llofft.
Mae aelodau o'r staff yn monitro'r lloft pob deg munud pan mae un o'r babanod yn cysgu yno ac yn nodi ei h/ymweliad ar ffurflen briodol sydd y tu allan i'r lloft.

Ystafell Staff

Mae'r staff yn bwyta eu prydau bwyd yma ac yn ymlacio.
Maent yn cadw eu hoffer personol yma megis bagiau a ffônau symudol.

Ni chaniateir defnyddio ffonau symudol yn ystod amser gwaith/gweithgareddau gyda'r plant gan neilltuo'r defnydd i doriadau yn unig.

Caniateir i staff wisgo eu watsys digidol gyda'r Wi-Fi a'r Bluetooth wedi eu hanalluogi.

Y Swyddfa

Cedwir ffeiliau cyfrinachol y staff a'r plant o dan glo mewn cabinet pwrpasol yma.
Ni chaiff unrhyw un fynediad i'r swyddfa heb ganiatad y Rheolydd neu'r person mewn gofal.

Ystafell Ymolchi a Thoiled

Mae dau doiled isel i'r plant a dau fasin ymolchi bwrpasol.
Mae yma hefyd doiled i'r staff a basin ymolchi pwrpasol.
Defnyddir sebon hylif a phapurau sychu dwylo.
Cedwir y peiriant golchi dillad yma.
Cedwir clytiau a weips yma.
Ni chaniateir i'r plant fynd i'r toiled heb i aelod o'r staff fod yn bresennol.
Caniateir mwy o annibyniaeth fel bo'r plentyn yn datblygu ac o dan oruchwyliaeth.
Yn yr ystafell ymolchi mae'r staff yn newid clytiau ac yma mae lle i storio menyg, ffedogau, bocsus cadw clytiau, weips i'r plant hŷn
Mae'r staff yn defnyddio canllawiau rheoli haint i newid clytiau.

Y Gegin

Yma mae'r staff yn paratoi prydau bwyd y Feithrinfa.
Darperir cinio a phwdin ar gyfer y plant gan Cegin Ceri yn ddyddiol a'i gludo i'r Feithrinfa o dan dymheredd priodol.
Mae gweddill y bwyd ar gyfer brecwast a the bach yn cael ei ddarparu yn y gegin.
Nid oes yr un plentyn yn cael mynd i'r gegin ac mae giat gyda bollt arni i'w gwahardd rhag cael mynediad.
Mae darparu prydau yn y Feithrinfa yn cael eu goruchwylio gan staff cymwys sy'n meddu ar gymhwyster Helendid Bwyd priodol.
Mae gan y Feithrinfa sgôr Hylendid bwyd o 5.
Mae bwydlenni yn cael eu haddasu yn dymhorol ac yn cael eu harddangos yn y cyntedd ac yn cael eu rhannu gyda'r rhieni/gofalwyr.

Yr ydym yn hyrwyddo bwydydd iach a ffres.

Yr Ardd

Mae'r ardd wedi ei gorchuddio gyda gwelltglas a slabiau.
Mae yma sied i gadw tegannau mawr.
Caiff y plant fynd allan i chwarae yn rheolaidd.
Mae tegannau priodol yn yr ardd.
Mae bocsus planu wedi eu creu gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle o dan arweiniad un o athrawon yr ysgol. Ceir cyfle i'r plant weld canlyniad y gweithgaredd fel rhan o'u datblygiad.

Polisi Derbyn

Mae cyfle i rieni/gofalwyr alw yn y Feithrinfa ar ymweliad wedi ei drefnu ymlaen llaw i weld a chyfarfod y Rheolydd a'r staff. Yn y cyfarfod gellir trafod telerau ac amodau'r gofal ynghyd ag ymateb i ymholiadau'r rhieni/gofalwyr.

Mae cyfle pellach i rieni neu warchodwyr adael y plentyn yng ngofal y Feithrinfa am hyd at un sesiwn bore neu un sesiwn prynhawn yn ddi-dâl fel sesiwn blasu.

Mae cyfle i'r plentyn gychwyn yn rhan amser ac yn raddol adeiladu'r oriau gofal yn unol â'r hyn sydd ei angen.

Polisi Iaith

Cymraeg yw prif iaith y Feithrinfa lle bo hynny'n ymarferol bosibl heb gau yr un plentyn allan o unrhyw weithgaredd.

Nôd y Feithrinfa yw cynnig cyfle i bob plentyn gael profiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae'r Feithrinfa yn: -

- sicrhau bod yr holl weithgareddau ar gyfer y plant yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd sydd yn gysylltiedig â'r Feithrinfa ond yn sicrhau na fydd unrhyw riant na phlentyn yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail iaith;
- sicrhau bod hysbysebion am swyddi yn datgan ymrwymiad y Feithrinfa yn y cyd-destun hwn;
- sicrhau fod gan bob aelod o staff a benodir rhuglder digonol yn y Gymraeg i ymgymryd â holl ddyletswyddau'r swydd;
- sirhau fod pob aelod o'r staff yn ddwy-ieithog;

- sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ymestyn iaith Gymraeg y plant;
- sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n cael ei gynhyrchu yn enw'r Feithrinfa yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- ymrwymo i weithredu holl elfennau'r Polisi Iaith

Gweithwyr Allweddol

Bydd pob plentyn yn cael ei ddyrannu i aelod o staff, a bydd yr unigolyn hwnnw yn Weithiwr Allweddol i'r plentyn. Y Gweithiwr Allweddol sydd bennaf gyfrifol am ei les bob dydd, ac sy'n sirhau bod gwybodaeth am y plentyn yn cael ei rannu gyda'r rhieni/gofalwyr.

Ail blentyn

Pan fo dau o blant o'r un teulu yn y Feithrinfa ar yr un pryd cynigir 10% i ffwrdd i'r plentyn sy'n gwneud y lleiafswm o ddyddiau neu oriau. Ni fedrwn fodd bynnag gynnig disgownt pellach i rieni ar gyfer trydydd neu bedwerydd plentyn.

Yr hyn sydd eu hangen ar gyfer pob diwrnod yn y Feithrinfa

Mae angen i bob plentyn ddod â'r canlynol gydag ef/hi bob dydd mewn bag os gwelwch yn dda: -

Clytiau a weips o'ch dewis chi

- Gellir cadw rhain ym mag y plentyn neu medrwch adael bocs yn y Feithrinfa. Bydd Gweithiwr Allweddol eich plentyn yn cadw cofnod ohonynt ac yn eich rhybuddio pan mae angen bocs o'r newydd.
- Medrwch gynnwys eli priodol i'w ddefnyddio wrth newid clwt pe bai angen.

Llaeth o'r fron/Poteli Llefrith

- Bydd llaeth o'r fron wedi'i labelu yn cael ei storio yn ddiogel a bydd man ar gael i famau fwydo eu babanod ar y fron neu dynnu llaeth o'r fron pe bai angen iddynt wneud hynny.

- Lle bo modd dylai rhieni/gofalwyr ddarparu llaeth fformiwla sydd wedi ei selio ar gyfer babanod. Os nad yw hyn yn bosib dylai rhieni/gofalwyr ddarparu fformiwla wedi'i selio mewn cynhwysydd addas er mwyn i'r staff ei gymysgu. Bydd y staff yn darparu'r poteli llefrith pan ac fel sydd angen yn unol a'ch

cyfarwyddiadau chi. Gofynnir i chi hefyd ddarparu un cyflenwad fformiwla sbar ar gyfer pob dydd i fod wrth gefn.

Dwmi (os y dymunir), tegan neu flanced gysuro

Digon o dillad sbâr i'w defnyddio pan fo clwt wedi gollwng neu pan fo'r plentyn wedi baeddu neu wrth ddod o glytiau.

Pan fo'r tywydd y braf bydd angen eli haul, het a dillad sy'n addas.

Pan fo'r tywydd yn oer y mae angen cot a chap cynnes i fynd allan i chwarae a wellingtons i fynd ar y gwair yn yr ardd sydd yn gallu bod yn fwdlyd pan mae hi wedi bwrw.

Os yw eich plentyn yn mynychu'r ysgol neu'r ysgol feithrin mae'n hynod bwysig fod cot atal oerni/glaw addas ganddynt neu siwt atal dwr yn ogystal â dillad sbar i newid iddynt os ydynt wedi gwlychu ar eu ffordd.

Iechyd eich Plentyn

Enw'r plentyn

A ydych yn ystyried eich plentyn yn iach?

A ydych am ddatgan unrhyw wybodaeth am iechyd eich plentyn (gan gofio mai lles eich plentyn sydd o dan sylw)?

A yw eich plentyn wedi derbyn y brechiadau sy'n cael eu hargymell gan y Gwasanaethau Iechyd ar gyfer eu hoedran?

Do	Naddo

A yw eich plentyn ar feddyginiaeth rheolaidd? *Rhestrwch os gwelwch yn dda.*

A yw eich plentyn erioed wedi cael ffit o ganlyniad i wres uchel?

A yw eich plentyn yn dioddef alergeddau tuag at unrhyw eli, sebon, eli haul neu unrhyw beth arall?

A oes gan eich plentyn anghenion deietegol arbennig?

A oes gan eich plentyn alegredd neu anoddefgarwch bwyd?

A yw eich plentyn yn yfed llefrith o'r fron, llefrith fformiwla, llefrith buwch neu unrhyw lefrith arall?

A oes unrhyw fwyd neu ddiod y mae eich plentyn yn gwrthod ei fwyta neu ei yfed?

Ffordd o Fyw

A ydych am i'ch plentyn beidio ag ymgymryd ag unrhyw agwedd arbennig o weithgareddau'r Feithrinfa?

Absenoldeb oherwydd salwch neu wyliau

Os oes gennych drefniant â'r Feithrinfa am le i'ch plentyn, er sicrhau hyfywdra ariannol y corff, bydd yn ofynnol i'r rhieni/gofalwyr dalu'r ffi arferol yn ystod cyfnodau salwch y plentyn neu wyliau rhieni/gofalwyr er nad yw'r plentyn yn mynychu'r feithrinfa.

Nid yw cyfnod absenoldeb yn golygu y bydd eich plentyn yn colli ei le yn y Feithrinfa.

Beth i'w wneud pan fo plentyn yn sal neu ar wyliau ...

Gofynnwn i chi gysylltu gyda'r Feithrinfa pan fo plentyn yn sal neu ar wyliau er mwyn sicrhau'r niferoedd prydau bwyd a hefyd ar gyfer trefniadau cludo o'r ysgol.

Plentyn yn sal

Mae'n bolisi gan y Feithrinfa i hybu a hyrwyddo iechyd da a glendid i'r holl blant sydd yn ein gofal. Mae hyn yn cynnwys monitro'r plant am arwyddion a symptomau o afiechydon heintus.

Os bydd y plentyn yn mynd yn sâl yn ystod y sesiwn gofal bydd Rheolwr/Is-Reolwr y Feithrinfa yn cysylltu â chi neu'r cyswllt brys a nodir ar y ffurflen gofrestru. Rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith o unrhyw newidiadau i'r manylion cyswllt hyn.

Os oes angen sylw meddygol brys ar eich plentyn yn ystod y gofal, byddwn yn ceisio cysylltu â chi a chael eich caniatâd ymlaen llaw os yw'n ymarferol. Fodd bynnag, pe na allwn gysylltu â chi byddwn yn cymryd awdurdod i wneud y penderfyniad ar eich rhan pe bai angen caniatâd ar gyfer triniaeth frys a argymhellir gan feddyg (gan gynnwys anesthetig neu lawdriniaeth, neu drallwysiad gwaed) oni bai eich bod wedi ein hysbysu ymlaen llaw eich bod yn gwrthwynebu trallwysiadau gwaed)).

Yn unol â chyfarwyddiadau Iechyd y Cyhoedd, ni fydd plentyn sydd â haint taflu i fyny neu sydd a haint dolur rhydd yn cael mynychu'r Feithrinfa am 48 awr.

Pe bai plentyn yn ein gofal yn cael anaf lled ddifrifol i'w ben, bydd staff y Feithrinfa yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr cyn gynted ag y bo modd i adrodd ar yr hyn sydd wedi digwydd.

Mae gan staff yr hawl i holi cyngor meddygol heb enwi unrhyw blentyn pe bai angen ynglyn â'r camau i'w dilyn yng nghyd destun cyflwr iechyd er sicrhau lles gweddill y plant a'r staff. Defnyddir gwybodaeth o'r daflen "Cyfnodau Heintus a Gwahardd y Clefydau Mwyaf Cyffredin" a gyhoeddir gan yr Adran Feddygaeth Cyhoeddus fel canllaw.

Bydd y Feithrinfa, gan barchu cyfrinachedd unigolion yn hysbysu rhieni/gofalwyr plant eraill os y ceir diagnosis fod gan blentyn sy'n mynychu'r Feithrinfa glefyd heintus.

Polisi Cyflwyno Meddyginiaeth

Cedwir pob meddyginiaeth o dan glo yn y swyddfa neu yn yr oergell a bydd angen caniatad ysgrifenedig rhieni/gofalwyr y plentyn cyn cyflwyno meddyginiaeth o unrhyw fath.

Os bydd y plentyn yn cyrraedd y Feithrinfa yn y bore ac angen meddyginiaeth yn ystod y dydd byddwn yn gofyn i chi lenwi ac arwyddo Ffurflen Caniatad i Gyflwyno Meddyginiaeth ar gyfer pob diwrnod y bydd angen y feddyginiaeth.

Os bydd y plentyn angen meddyginiaeth heb brescripsiwn e.e. Calpol dros gyfnod o ddyddiau gellir cadw meddyginiaeth o'r fath o dan glo yn y swyddfa dros gyfnod yr anhwylder, i'w ddefnyddio yn unol a chyfarwyddyd y rhieni/gofalwyr. Bydd gofyn i'r rhieni/gofalwyr gwblhau Ffurflen Caniatad i Gyflwyno Meddyginiaeth Di Bresgripsiwn ar gyfer pob diwrnod y bydd angen y feddyginiaeth.

Wrth ddod â'r feddyginiaeth heb bresgripsiwn i Dwylo Da am y tro cyntaf e.e. Calpol, rhaid i'r cynhwysydd fod yn newydd ac heb ei agor, ag enw'r plentyn arno ynghyd â'r dyddiad.

Mewn argyfwng, os nad oes Ffurflen Caniatad i Gyflwyno Meddyginiaeth Di Bresgripsiwn wedi ei chwblhau ar gyfer y diwrnod hwnnw, a'r feddyginiaeth ar gyfer y plentyn o dan glo yn y swyddfa, bydd y staff sydd ag awdurdod yn cysylltu gyda'r rhieni/gofalwyr i geisio eu caniatad i gyflwyno'r feddyginiaeth ac yn rhestru'r rhesymeg dros fod ag angen ei gyflwyno. Bydd y staff hefyd yn gofyn pryd y cafodd y plentyn y dôs diwethaf os yn briodol.

Wedi'r sgwrs ffon ac wedi i'r caniatad gael ei roi ar lafar, bydd y staff sydd ag awdurdod yn anfon Ffurflen Caniatad i Roi Meddyginiaeth Di Bresgripsiwn yn electroneg at y rhieni/gofalwyr i dderbyn eu cadarnhad yn ysgrifenedig cyn i'r staff gyflwyno'r feddyginiaeth.

Ni fydd Dwylo Da yn cyflwyno meddyginiaeth heb i'r ffurflen gael ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Feithrinfa yn electroneg neu trwy law.

Bydd y staff yn nodi unrhyw feddyginiaeth gyflwynwyd i'r plentyn yn ystod y dydd ar y adroddiad dyddiol.

Bydd y staff sydd ag awdurdod yn nodi'r dyddiad pan fo'r cynhwysydd yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

Os yw rhoi'r feddyginiaeth ar bresgripsiwn yn gofyn am wybodaeth dechnegol neu feddygol, yna darperir hyfforddiant unigol i'r staff gan broffesiynolyn iechyd cymwys.

Wrth gasglu'r plentyn gofynnir i'r rhieni/gofalwyr arwyddo Ffurflen Cyflwyno Meddyginiaeth i gydnabod y cofnod o gyflwyno meddyginiaeth i'w plentyn a chedwir y ffurflen ar ffeil yn y Feithrinfa.

Polisi Llid y llygaid

Nid yw'r Feithrinfa yn gwahardd unrhyw blentyn o'r Feithrinfa sydd â Llid y Llygaid yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae Llid y Llygaid yn heintus ac yn lledaenu yn gyflym drwy'r plant a'r staff. Mae'n bwysig iawn i'r rhieni/gofalwyr hysbysu'r Feithrinfa os yw eu plentyn yn dioddef o Lid y Llygaid.

Os bydd eich plentyn yn arddangos symptomau Llid y Llygaid yn ystod y dydd bydd staff y Feithrinfa yn cysylltu â chi er ceisio hwyluso trefnu apwyntiad gyda'r meddyg neu archebu triniaeth.

Cynghorir rhieni/gofalwyr i holi cyngor proffesiynolyn iechyd ac i geisio triniaeth briodol.

Bydd y Feithrinfa yn hysbysu rhieni/gofalwyr mewn achos o unrhyw haint gan barchu cyfrinachedd unigolion.

Bydd rhaid gwahardd plant o'r Feithrinfa os bydd toriad difrifol o Lid y Llygaid yn bodoli. Gwneir y penderfyniad yma trwy cysylltu a'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy lleol.

Polisi Llau Pen

Nid yw'r Feithrinfa yn gwahardd unrhyw blentyn sydd â llau pen o'r Feithrinfa.

Fodd bynnag gall llau pen ledaenu yn gyflym drwy'r plant a'r staff. Mae'n bwysig iawn i'r rhieni/gofalwyr hysbysu'r Feithrinfa os oes gan y plentyn lau pen a sicrhau bod y plentyn yn derbyn triniaeth briodol cyn dod i'r Feithrinfa.

Os y bydd yn dod yn amlwg yn ystod y dydd bod gan blentyn lau pen, bydd y staff yn cysylltu gyda'r rhieni/gofalwyr er mwyn hwyluso'r broses o drin y cyflwr.

Os fydd y cyflwr yn parhau neu'n ail godi yn rheolaidd, gellir ymgynghori â phroffesiynolion yn y maes a chymryd camau priodol.

Byddwn yn hysbysu'r holl rieni/gwarchodwyr os fydd plentyn gyda llau wedi bod mewn cysylltiad a'u plentyn hwy.

POLISI IECHYD, DIOGELWCH A LLES

Bydd y Feithrinfa yn gweithredu o fewn terfynau rhesymol ac ymarferol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r plant yn ei gofal, myfyrwyr ar brofiad gwaith, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.

Hawliau Plant

Mae sicrhau iechyd, diogelwch a lles yn rhan o sicrhau bod y Feithrinfa yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

Bydd y Feithrinfa yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth gyfredol iechyd a diogelwch.

Bydd y Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol (y Rheolydd) ynghyd â'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod y Feithrinfa yn gweithredu'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles. Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol ohono ac yn cydymffurfio yn llawn â'r holl ofynion.

Bydd y Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol (y Rheolydd) ynghyd â'r Bwrdd Rheoli yn darparu cyfleoedd i'r holl staff fynychu cyrsiau iechyd a diogelwch yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y Rheolydd a'r Is- Reolydd yn gyfrifol am weithredu y Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles o ddydd i ddydd.

Bydd y Feithrinfa yn:

- sicrhau bod amgylchedd tu mewn a thu allan y Feithrinfa yn ddiogel ar gyfer y staff a'r plant
- cynnal asesiad risg rheolaidd o'r adeilad a'i amgylchedd.
- sicrhau bod llyfr Cofnodi Damweiniau a Digwyddiadau ar gael a sicrhau bod y staff yn cofnodi pob damwain a digwyddiad.
- sicrhau bod canllawiau Riddor yn cael eu gweithredu yn unol â gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- sicrhau bod staff penodol o fewn y Feithrinfa â chyfrifoldeb am Gymorth Cyntaf a hefyd sicrhau bod digon o staff cymwys ym mhob sesiwn a chanddi/ganddo dystysgrif Cymorth Cyntaf cyfredol ac addas. Dylid dilyn y cymarebau ar gyfer staff wedi'i hyfforddi a phlant a dylid arddangos tystysgrifau Cymorth Cyntaf yn y Feithrinfa.

- sicrhau bod ffôn ar gael i'w ddefnyddio yn y Feithrinfa.
- sicrhau bod holl aelodau'r staff yn mynychu cyrsiau Iechyd a Diogelwch yn rheolaidd.

Diogelwch Tân

Bydd y Feithrinfa yn cwrdd â safonau diogelwch tân sylfaenol yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Tân (RRO 2005). Bydd y person â chyfrifoldeb am iechyd a diogelwch (y Rheolydd) yn cynnal asesiad risg tân a gweithredu a chynnal cynllun rheoli tân.

Bydd y Feithrinfa yn sicrhau fod pawb sy'n gweithio ac yn ymweld â'r adeilad, yn cael eu diogelu rhag perygl tân. Er mwyn sicrhau hyn, bydd y Feithrinfa yn:

- cynnal asesiad risg tân, ei gofnodi a'i ddiweddaru yn rheolaidd neu pan fo newid yn yr amgylchiadau
- sicrhau bod staff yn derbyn canllawiau manwl am reolau diogelwch tân ac yn eu gweithredu e.e gwacau'r adeilad mewn achos o dân
- sicrhau bod cyflenwad digonol o ddiffodyddion tân addas mewn mannau amlwg a hwylus, wedi eu gosod gan sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Tân
- sicrhau bod cyfarwyddiadau clir a manwl ar sut i weithredu mewn achos o dân yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn yr adeilad
- sicrhau bod dril tân yn cael ei gynnal yn rheolaidd a'i gofnodi. Bydd y Rheolydd yn gyfrifol am wacáu'r adeilad mewn argyfwng.
- profi'r larymau tân yn wythnosol gan gadw cofnod o bob prawf
- sicrhau bod yr offer trydanol yn cael ei archwilio yn rheolaidd a chadw cofnod o'r archwiliadau

Lles

Bydd y Feithrinfa yn:

- sicrhau bod modd rheoli'r tymheredd fel nad yw'n gostwng o dan 16°C ac nad yw'n codi i bwynt lle'i fod yn anghysurus a pheryglus i les y plant
- sicrhau bod cysgod digonol yn yr ardal chwarae y tu allan, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

- sicrhau bod cofrestr lawn yn cael ei lenwi wrth i bob plentyn unigol gyrraedd a gadael yr adeilad
- sicrhau bod pob aelod o staff ac unrhyw ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad.
- sicrhau nad yw aelodau staff nac unrhyw ymwelwyr yn ysmygu yn y Feithrinfa a'i hamgylchoedd ar unrhyw achlysur. Sicrhau bod arwyddion 'Dim Ysmygu yn cael eu harddangos wrth y fynedfa.
- cynnig pob cefnogaeth i aelodau o staff sydd yn ysmygu er mwyn iddynt roi'r gorau i'r arferiad.
- sicrhau nad yw aelod o staff sy'n ysmygu yn dod i gyswllt â phlant y Feithrinfa tra'n arogli o fwg ar ei ddillad a'i anadl.
- gofalu bod staff yn derbyn gwybodaeth ar arferion da codi a chario pwysau a bod cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol yn gyson.
- sicrhau bod gwybodaeth Cyfraith Iechyd a Diogelwch Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos
- sicrhau bod myfyrwyr ar leoliad gwaith a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch ar eu hymweliad cyntaf.
- sicrhau bod blwch Cymorth Cyntaf yn cynnwys y defnyddiau angenrheidiol, yn cael ei ddarparu a'i gadw mewn man amlwg, gan ei archwilio'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn.
- sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni/gofalwyr i weithredu unrhyw driniaeth feddygol frys, ar gael ar gyfer pob plentyn, gan ddilyn canllawiau'r Polisiau perthnasol.

Iechyd a Hylendid Personol

Bydd y Feithrinfa yn:

- sicrhau bod y plant yn dysgu am iechyd a hylendid personol
- sicrhau safon uchel o hylendid a glanweithdra yn y Feithrinfa.

Diogelwch y plant ar deithiau

Cyfrifoldeb y Rheolydd a'r staff ar ran y Bwrdd Rheoli yw sicrhau diogelwch y plant ar deithiau y tu allan i'r Feithrinfa.

Bydd y Feithrinfa yn:

- dilyn canllawiau'r polisiau perthnasol

Polisi bwyd a diod

Mae Dwylo Da yn credu fod amseroedd bwyd yn achlysuron hapus lle mae'r plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd a'r staff. Rydym yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn ystod y cyfnodau hyn.

Byddwn yn gweithio gyda chi i baratoi prydau a byrbrydau maethlon a chytbwys i'r plant sydd yn bodloni eu hanghenion a'u gofynion personol.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddarparu bwyd addas i'ch plentyn os oes gan eich plentyn ofyniad dietegol arbennig neu unrhyw alergeddau fel y'u diagnosiwyd gan feddyg neu ddietegydd. Cymerir pob gofal rhesymol i sicrhau nad yw eich plentyn yn dod i gysylltiad â rhai bwydydd gyda chefnogaeth rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol pe bai'r angen yn codi.

Bydd bwydlenni'n cael eu harddangos i'w harchwilio a gall rhieni/gofalwyr a phlant drafod eu cynnwys gyda'r Rheolwr neu'r Is-Reolwr lle bo angen.

Ni fydd unrhyw becyn cinio sydd wedi ei ddarparu gan rieni/gofalwyr yn cael eu cynhesu gennym ni.

Bydd llaeth o'r fron wedi'i labelu yn cael ei storio yn ddiogel a bydd man ar gael i famau fwydo eu babanod ar y fron neu dynnu llaeth o'r fron pe bai angen iddynt wneud hynny.

Lle bo modd dylai rhieni/gofalwyr ddarparu llaeth fformiwla sydd wedi ei selio ar gyfer babanod. Os nad yw hyn yn bosib dylai rhieni/gofalwyr ddarparu fformiwla wedi'i selio mewn cynhwysydd addas er mwyn i'r staff ei gymysgu. Bydd y staff yn darparu'r poteli llefrith pan ac fel sydd angen yn unol a'ch cyfarwyddiadau chi. Gofynnir i chi hefyd ddarparu un cyflenwad fformiwla sbar ar gyfer pob dydd i fod wrth gefn.

Mae'r plant yn derbyn bwyd a diod yn rheolaidd a digon ohono i fodloni eu anghenion

Mae Meithrinfa Dwylo Da yn cael ei harchwilio i gyd-fynd ag anghenion hylendid bwyd statudol.

- Darperir tri phryd yn ystod y dydd yn cynnwys brecwast, cinio a phwdin a thê bach am 10, 12 a 3 o'r gloch.
- Caiff bwyd sy'n addas ei weini i bob plentyn gydag ystyriaethau priodol i alergedd fel sydd angen.

- Rhoddir diod trwy'r dydd yn unol ag angen y plentyn. Gyda'r prydau bwyd rhoddir llefrith amser brecwast, dwr amser cinio a dewis o ddŵr neu lefrith amser te.
- Bydd Bwydlenni yn cael eu rhannu gyda'r rhieni/gofalwyr ymlaen llaw er sicrhau eu haddasrwydd. Os nad yw'r plentyn yn bwyta unrhyw fwyd oddi ar y fwydlen gellir trefnu i wneud addasiadau.
- Mae'r bwydlenni'n newid yn gyfamserol a byddwn yn eu haddasu'n syth os nad yw'r plant yn bwyta digon. Hysbysir y rhieni/gofalwyr bob amser o addasiadau.
- Bydd y staff allweddol yn ymgymryd â bwydo a helpu bwydo'r plant yn eu gofal.
- Mae'r Feithrinfa yn hybu bwyd iach, ffres a lleol a chydymffurfir ag anghenion rhesymol ar gais rhieni/gofalwyr.
- Darperir y cinio a phwdin gan Cegin Ceri sy'n ei ddanfon i'r Feithrinfa yn ddyddiol. Mae'r staff yn darparu brecwast a the bach.
- Mae cyfleusterau i'r plant eistedd wrth fyrddau i gael eu prydau bwyd ac mae cadeiriau uchel i'r plant ieuengaf a'r babanod.
- Byddwn bob amser yn gweithio gyda'r rhieni/gofalwyr wrth gyflwyno bwyd llwy i'r plant.

Polisi newid clytiau

Mae plant yn y Feithrinfa yn cael newid eu clytiau i gyd fynd ag anghenion pob plentyn yn unigol. Ein nod yw gweithio yn unol â dymuniadau'r rheni/gofalwyr ac er mwyn i'r plant fod yn gyfforddus.

Ni fyddwn yn caniatau i aelod o staff sydd o dan oruchwyliaeth neu fyfyriwr ar brofiad gwaith i newid clwt plentyn ar unrhyw achlysur.

Byddwn yn: -

- sicrhau fod pob aelod o staff yn estyn parch a gofal cynnes i blant yn ystod newid clwt;
- sicrhau fod man priodol a deunydd hylendid addas ar gael ar gyfer newid clwt y plentyn;
- darparu hyfforddiant i bob aelod o staff ar yr arfer orau wrth newid clwt.

Polisi cael plant allan o glytiau

Ni fyddwn yn annog nac yn dechrau hyfforddi unrhyw blentyn heb gyfarwyddyd gan y rhieni/gofalwyr.

Nid yw'r canllawiau gofal plant yn annog cychwyn y broses tan y mae'r plentyn oddeutu 2 oed oherwydd eu hanaeddfedrwydd i wneud cysylltiad rhwng eu pledren a'u hymenydd. Yr ydym yn awyddus i gydymffurfio a'r canllaw yma.

Wrth ddechrau ar y broses mae'n rhaid sicrhau bod digon o ddillad sbâr ar gael bob dydd a bod staff y Feithrinfa a'r rhieni/gofalwyr yn cyd–weithio i wneud y broses yn un cysurus i'r plentyn.

Polisi cysgu

Mae pob plentyn sydd yn cysgu yn y Feithrinfa yn cysgu mewn cot neu ar fatiau cysgu pwrpasol.

Mae plant o dan ddwy oed yn cysgu yn unol â phatrwm cysgu'r plentyn mewn cyd-weithrediad â'r rhieni/gofalwyr.

Mae plant dros ddwy oed yn cysgu ar ôl cinio, mae cyfnod y cysgu yn ddibynnu ar gyfarwyddiadau'r rhieni/gofalwyr.

Mae gan bob plentyn ei ddillad gwely ei hun ac maent yn cael eu golchi'n rheolaidd.

Rhoir pob plentyn i gysgu ar eu cefnau oni bai bod cyfarwyddiad gwahanol gan y rhieni / gofalwyr.

Polisi Amddiffyn Plant

Nod y Feithrinfa yw sicrhau lles, diogelwch a datblygiad pob plentyn yn ein gofal.

Rydym yn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn ein gofal yn ddiogel, yn fodlon ac yn ffynnu. Serch hynny mae yna achlysuron ble daw i'r amlwg fod plentyn mewn risg o ddioddef neu yn dioddef o gamdriniaeth.

Mae amddiffyn plant rhag camdriniaeth yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff.

Mae'r Feithrinfa yn hyrwyddo awyrgylch ac ethos sy'n galluogi plant a staff i fynegi yn agored unrhyw ofidiau sydd ganddynt. Mae'r Polisi Amddiffyn Plant hwn a'r gweithdrefnau yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Deddf Plant 1989 a chanllawiau diogelu plant - Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae'r Feithrinfa yn parchu hawliau plant yn unol â datganiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Deddf Plant 2004. I'r perwyl hwn bydd gan blant yr hawl i ddisgwyl i bob oedolyn sydd â chyfrifoldeb amdanynt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth o bob math.

Diogelwch a Hybu Lles

Rydym yn cydnabod bod lefel uchel o hyder, ymddiriedaeth a pherthynas glos rhwng y plant a'r gweithwyr yn helpu i ddiogelu plant rhag niwed. Felly bydd y Feithrinfa yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo yn ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad a ble mae staff yn gwrando yn bwrpasol arnynt
- sicrhau bod plant yn gwybod bod yr oedolion o'u cwmpas yn ymateb bob tro pan maent yn cyfathrebu
- sicrhau fod cyfleoedd yn cael eu cynllunio i fagu sgiliau cymdeithasol a chaniatau i blant ffurfio perthynas a'i gilydd
- modelu addysgeg sydd yn seiliedig ar ddangos parch at eraill

Byddwn yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Plant.

Yr Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Gofal (y Rheolydd) yw'r personau dynodedig amddiffyn plant. Rhaid iddynt sicrhau fod pob aelod o staff yn deall eu rôl yng nghyd-destun amddiffyn plant a'u bod yn gweithredu yn briodol bob amser.

Bydd y Feithrinfa yn sefydlu partneriaeth agos â rhieni/gofalwyr er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o'i rôl yn gofalu am les plant. Bydd pob rhieni/gofalwyr newydd yn derbyn gwybodaeth ar bolisïau'r Feithrinfa, yn cynnwys y Polisi Amddiffyn Plant cyn i'w blentyn ddechrau mynychu'r Feithrinfa. Bydd rhieni/gofalwyr yn deall bod gan y Feithrinfa gyfrifoldeb i gyfeirio unrhyw achos o gamdriniaeth dybiedig i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd copi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gael yn y Feithrinfa i rieni ei weld ac i'r staff gyfeirio ato.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Gofal (y Rheolydd) yn medru arwain ar y gwaith o ddiogelu plant yn y Feithrinfa ynghyd â chynghori a chefnogi staff a chysylltu ag asiantaethau diogelu plant pan fo achos o gamdriniaeth tybiedig i blentyn sy'n mynychu'r Feithrinfa.

Cyfrifoldeb yr Unigolyn Cyfrifol a'r Person a Gofal (y Rheolydd) fydd sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu plant ynghyd â sut i adnabod achosion o gamdriniaeth a sut i ymateb yn briodol.

Bydd hyfforddiant anwytho cychwynnol pob aelod newydd o staff yn cynnwys gwybodaeth lawn ar Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu Plant.

Os yw'r Rheolydd yn bryderus ynglŷn â newid yn ymddygiad plentyn neu unrhyw arwyddion o niwed corfforol mân ond anesboniadwy, bydd yn trafod y sefyllfa gyda'r rhieni/gofalwyr gan roi esboniad am unrhyw anaf neu ymddygiad anghyffredin. Ni ddylid trafod gyda rhieni/gofalwyr os fyddai hyn yn peryglu'r plentyn mewn unrhyw fodd. Ble mae elfen o ansicrwydd ynglŷn a hyn bydd y Rheolwr yn ceisio cyngor gan y Bwrdd Rheoli a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y Rheolydd yn hysbysu'r Bwrdd Rheoli am y sefyllfa ac am unrhyw drafodaeth gyda'r rhieni/gofalwyr ynglŷn a'r digwyddiad. Cedwir cofnod llawn a chyfrinachol o'r sefyllfa yn y Llyfr Digwyddiadau ynghyd â chofnod o esboniad y rhieni/gofalwyr ac unrhyw gamau pellach a gymerwyd. Dylid trin y wybodaeth yn gwbl gyfrinachol a chadw'r llyfr dan glo bob amser.

Os yw'r Rheolydd yn amau fod plentyn yn cael ei gam-drin o ganlyniad i arwyddion corfforol neu arwyddion esgeulustod ar y plentyn, arwyddion ymddygiadol neu honiad gan y plentyn ei hun, bydd y Rheolydd yn gweithredu ar unwaith trwy gysylltu a'r Bwrdd Rheoli a'r Swyddog ar Ddyletswydd yn swyddfa leol yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfrifoldeb y Rheolydd fydd cadarnhau hyn yn ysgrifenedig o fewn 24 awr. Bydd hefyd yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru.

Os yw staff eraill y Feithrinfa yn bryderus ynglŷn â lles neu ddiogelwch plentyn dan eu gofal, byddant yn trafod y mater ar unwaith ac yn gyfrinachol gyda'r Rheolydd. Mewn achos o'r fath bydd y Rheolydd yn dilyn y camau uchod.

Os yw staff y Feithrinfa yn ymwybodol fod plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, a bod y plentyn yn absennol o'r Feithrinfa heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod bydd y Feithrinfa yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gellir dod i drefniant ynglyn ag absenoldeb gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol ymlaen llaw.

Polisi Cynhwysiant a Chyfle Cyfartal

Nod

Nod y Feithrinfa yw rhoi cyfle i bob plentyn fanteisio ar y profiadau sydd i'w cael yn Dwylo Da.

Hawliau Plant

Mae sicrhau cyfle i bob plentyn fanteisio ar brofiadau'r Feithrinfa yn rhan o barchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn, beth bynnag fo'i hil, rhywedd, crefydd, iaith, gallu, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 8: Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei ystyried.

Erthygl 14: Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 23: Mae gan bob plentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd da a llawn, a chyn belled a bo modd, dylent gael byw bywyd annibynnol a bod yn weithredol o fewn y gymuned.

Erthygl 30: Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, boed y rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chreadigol.

Egwyddorion

Mae'r Feithrinfa yn ymrwymo i roi cefnogaeth briodol i bob plentyn sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd y Feithrinfa yn gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau perthnasol eraill i sicrhau cymorth a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu. Mae'r Feithrinfa yn cydnabod fod anghenion plant yn newid a datblygu yn barhaus ac yn ymrwymo i sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion bob plentyn.

Mae'r Feithrinfa yn parchu'r egwyddor o gyfrinachedd ym mhob agwedd o'i gwaith gan gynnwys ym maes anghenion ychwanegol a chedwir unrhyw gofnod neu sylwadau am blentyn unigol yn gyfrinachol ac o dan glo bob amser.

Cod Ymarfer

Y Rheolydd yw Cydlynydd Anghenion Ychwanegol y Feithrinfa. Fodd bynnag, bydd gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am ofalu am anghenion pob plentyn sy'n mynychu'r Feithrinfa. Bydd enw'r Cydlynydd ar hysbysfwrdd y Feithrinfa.

Bydd y Rheolwr yn trafod yn gyfrinachol â rhieni/gofalwyr os bydd yn pryderu fod gan eu plentyn anghenion ychwanegol sydd heb eu hadnabod. Gyda chaniatâd y rhieni/gofalwyr, bydd y Feithrinfa yn cysylltu â'r Cynllun Cyfeirio lleol ac / neu asiantaethau perthnasol eraill, os bydd angen.

Cyfrifoldeb y Rheolwr, mewn partneriaeth â'r Cynllun Cyfeirio lleol ac / neu asiantaethau perthnasol eraill os yn berthnasol, yw hwyluso mynediad i'r Feithrinfa i bob plentyn, waeth beth fo'i angen. Bydd y Rheolwr yn sicrhau bod y staff yn derbyn yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Bydd y Feithrinfa yn nodi yn ei ddeunydd cyhoeddusrwydd fod croeso i bob plentyn ymuno yn holl weithgareddau'r Feithrinfa.

Bydd y Feithrinfa, mewn partneriaeth â'r Cynllun Cyfeirio, os yn berthnasol, yn annog mewnbwn gan y bobl broffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn ar ffurf arweiniad, cyngor ac ymweliadau â'r Feithrinfa.

Bydd y Feithrinfa yn trosglwyddo gwybodaeth berthnasol i'r rhieni/gofalwyr a chyda'u caniatâd i gyrff statudol lleol os oes angen.

Er bod un person wedi ei ddynodi i fod yn Gydlynydd Anghenion Ychwanegol yn y Feithrinfa, bydd gan bob aelod o staff gyfrifoldeb dros ofalu am anghenion pob plentyn sydd yn mynychu'r Feithrinfa.

Rôl/cyfrifoldebau'r unigolyn yn y Feithrinfa sydd wedi ei ddynodi i fod yn Gydlynydd Anghenion Ychwanegol:

- sicrhau bod enw'r Cydlynydd Anghenion Ychwanegol ar yr hysbysfwrdd.
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng y Feithrinfa a Chysylltydd y Cynllun Cyfeirio, os yn berthnasol er mwyn hybu cynhwysiant o fewn y Feithrinfa.
- rhaeadru gwybodaeth am hyfforddiant lleol i staff am unrhyw anghenion hyfforddiant o fewn y Feithrinfa.
- cynghori a chefnogi staff eraill yn y Feithrinfa.
- sicrhau bod ffurflenni angenrheidiol yn cael eu cadw yn gyfredol ar gyfer pob plentyn ag anghenion ychwanegol.

- sicrhau cysylltiad agos gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion ychwanegol.
- sicrhau bod y Feithrinfa yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn gyson gan ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd ar y camau a gymerwyd i helpu'r plentyn a chanlyniad y camau hynny. Bydd y Feithrinfa yn sicrhau bod cryfderau'r plentyn yn cael eu pwysleisio yn ogystal â gwybodaeth am y cymorth a roddir.

Polisi Cyrraedd a Gadael y Feithrinfa

Mae'n bolisi gennym i roi croeso cynnes i bob plentyn wrth iddynt gyrraedd y Feithrinfa. Gofynnir i rieni/gwarchodwyr drosglwyddo gofal eu plentyn i ddwylo un aelod o'r staff fydd yn gyfrifol am eu diogelwch ac yn gyfrifol am gofnodi eu presenoldeb ar y gofrestr.

Bydd aelod o staff yn cydnabod ymadawiad pob plentyn o'r Feithrinfa bob amser.

Os na ddaw unrhyw un i gasglu'r plentyn ar ddiwedd y sesiwn gofal yn unol â'r trefniant sydd wedi ei wneud (1 o'r gloch neu 6 o'r gloch), mae'n bolisi gan y Feithrinfa i gysylltu â'r sawl sydd wedi ei raglennu i gasglu'r plentyn ar y diwrnod hwnnw. Os na fedrwn wneud y cyswllt, byddwn yn cysylltu gyda'r unigolion eraill sydd ar y Ffurflen Gofrestr Danfon a Chasglu. Os nad oes modd trefnu i unrhyw un i gasglu'r plentyn o fewn hanner awr ar ol i'r sesiwn prynhawn orffen, i gyd-fynd â gofynion, bydd y staff yn cysylltu gyda Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd yr Awdurdod Lleol am gyngor pellach.

Ffurflen Gofrestr Danfon a Chasglu

Enw'r Plentyn

Dyma'r personau fydd yn gyfrifol am ddanfon a chasglu fy mhlentyn/plant o'r Feithrinfa:-

Enw

Cyfeiriad

Rhifau ffon:-
Cartref

Gwaith

Symudol

Perthynas â'r plentyn e.e. mam, tad, nain, taid

Enw

Cyfeiriad

Rhifau ffon:-
Cartref

Gwaith

Symudol

Perthynas â'r plentyn e.e. mam, tad, nain, taid

Enw

Cyfeiriad

Rhifau ffon:-
Cartref

Gwaith

Symudol

Perthynas â'r plentyn e.e. mam, tad, nain, taid

Enw

Cyfeiriad

Rhifau ffon:-
Cartref

Gwaith

Symudol

Perthynas â'r plentyn e.e. mam, tad, nain, taid

Mae gofyn i chi gyflwyno llun y rhai sydd â hawl i gasglu eich plentyn fel bo'r staff yn eu hadnabod. Medrwch wneud hyn trwy drefniant gyda'r Rheoydd i'w cadw ar ffeil neu trwy gyfrwng neges Gweplyfr.

Trwy gwblhau'r ffurflen hon rydych yn caniatau i'r Feithrinfa ryddhau eich plentyn i'r personau a nodir gennych.

- Ni chaniateir i'r un plentyn fynd o'r Feithrinfa gydag unrhyw un arall arwahan i'r personau a nodir gennych chi oni bai fod trefniant blaenorol wedi ei wneud gyda chi fel rhieni/gofalwyr
- Os bydd trefniadau nol eich plentyn yn newid yn ystod y dydd disgwylir i'r rhieni/gofalwyr ffonio'r Feithrinfa i egluro pwy fydd yn dod i nol eu plentyn.
- Ni fydd staff y Feithrinfa'n caniatau i'r un plentyn adael yr adeilad gydag unrhyw un sydd heb fod ar y rhestr neu sydd heb fod â chaniatad llafar gan y rhieni/gofalwyr a llun wedi ei gyflwyno.
-

Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol

Mae'n rhaid i blant sy'n mynychu'r Feithrinfa wybod sut i ymddwyn er eu diogelwch eu hunain ac eraill. Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli mewn modd sy'n hybu lles a datblygiad.

O fewn Meithrinfa Dwylo Da ein nôd yw gosod canllawiau fydd yn helpu'r plentyn i ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac arwyddocad y ffordd y mae'n ymddwyn ynghyd ag effaith ei ymddygiad ar ei amgylchfyd ac ar eraill o'i gwmpas. Bydd cyn lleied â phosibl o gyfyngiadau ar reddf naturiol plentyn i ymchwilio a datblygu syniadau.

Bydd Staff y Feithrinfa yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr i'w hysbysu o unrhyw sefyllfa ddifrifol. Cedwir cofnod o unrhyw ddigwyddiad anfoddhaol ar y Gofrestr Ymddygiad.

Os oes plentyn yn arddangos ymddygiad sy'n amharu ar fwyniant eraill bydd y staff yn hebrwng y plentyn o'r neilltu ac egluro iddo /iddi nad yw'r ymddygiad yn dderbyniol ac yn ei h/annog i gynnig ymddiheuriad.

Os oes plentyn yn parhau i ymddwyn yn annerbyniol bydd y staff yn trafod y sefyllfa gyda'r rhieni/gofalwyr.

Cedwir yr hawl i derfynu cytundeb plentyn sy'n ymddwyn yn afresymol ac yn anghymdeithasol yn rheolaidd.

Ni chaniateir cosb mewn unrhyw ffordd nac o dan unrhyw amgylchiadau, serch hynny efallai y bydd yn rhaid defnyddio grym corfforol mewn argyfwng i atal niwed personol, niwed i eraill neu niwed difrifol i eiddo.

Polisi Bwlio a Chamymddwyn

Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli mewn modd sy'n hybu eu lles a'u datblygiad.

Un o amcanion y Feithrinfa yw darparu gofal dibynadwy mewn amgylchedd diogel a hapus ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu. Mae'r Feithrinfa yn cefnogi ac yn hybu ymddygiad positif megis caredigrwydd, parch tuag at eraill a pharch tuag at adnoddau ac eiddo.

Ni fydd y Feithrinfa yn goddef ymddygiad megis bwlio boed yn llafar neu'n gorfforol, ymddygiad gwrthwahaniaethol, anafu eraill yn fwriadol, rhegi,

digwyleiddra, ymddygiad distrywiol neu anghymdeithasol, diffyg parch tuag at offer. Anogir y plant i hysbysu'r staff am unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

Os oes plentyn yn arddangos ymddygiad sy'n amharu ar fwyniant eraill bydd y staff yn hebrwng y plentyn o'r neilltu ac egluro iddo /iddi nad yw'r ymddygiad yn dderbyniol ac yn ei h/annog i gynnig ymddiheuriad.

Os oes plentyn yn parhau i ymddwyn yn annerbyniol bydd y staff yn trafod y sefyllfa gyda'r rhieni/gofalwyr.

Cedwir yr hawl i derfynu cytundeb plentyn mewn achosion o'r fath.

Bydd y staff yn adrodd i'r rhieni/gofalwyr perthnasol ar bob achlysur.

Plentyn ar goll

Er y gwneir pob ymdrech i ddiogelu pob plentyn trwy gydol yr amser y maent yn y Feithrinfa gan gloi pob drws a giât, gall achlysuron eithriadol godi pryd y gallasai plentyn fynd ar goll, megis: -

- Pe bai'r plentyn yn crwydro ei hun o amgylch yr adeilad;
- Pe bai'r plentyn yn dianc o'r Feithrinfa;

Pe cyfyd un o'r sefyllfaoedd uchod bydd y staff yn: -

- Creu ymwybyddiaeth ymysg y staff ar unwaith gan geisio gwybodaeth ynglyn â phryd a lle gwelwyd y plentyn ddiwethaf;
- Gan sicrhau diogelwch a goruchwyliaeth gweddill y plant, bydd un neu ddau / ddwy os yn bosib yn archwilio'r adeilad a'r ardal gyfagos;
- Os bydd y plentyn yn parhau ar goll wedi 15 munud, cysylltir â'r rhieni/gofalwyr a hysbysir yr heddlu o'r sefyllfa;
- Bydd y staff yn parhau i chwilio am y plentyn gan ehangu'r ardal gan gadw mewn cysylltiad cyson â'r swyddog /ion yng ngofal y plant yn y Feithrinfa.

Wedi datrys y sefyllfa, bydd aelodau'r staff yn adolygu'r digwyddiad gyda'r Bwrdd Rheoli ac yn gosod mesurau fydd yn sicrhau osgoi digwyddiad o'r fath i'r dyfodol.

Polisi Cwynion

Bwriad y Polisi Cwyno yw sicrhau fod proses yn ei lle sy'n rhoi cyfle i unrhyw aelod o'r staff neu rieni/gwarchodwyr wneud cwyn a chael ymateb i'r gwyn honno.

Os oes gennych chi achwyniad neu gwyn ynglyn â'r gwasanaeth neu unrhyw agwedd arall o waith Meithrinfa Dwylo Da, dylech yn y lle cyntaf drafod y mater mewn modd anffurfiol gyda'r Rheolydd. Bydd ef/hi yn trafod eich pryderon yn gyfrinachol, yn gwneud archwiliadau synhwyrol ac yn ceisio datrys y mater yn gyflym a theg.

Os ydych yn dewis gwneud eich achwyniad neu gwyn mewn modd ffurfiol, ysgrifennwch at y Rheolydd i ddatgan eich cwynion a'ch sail dros eu datgan gan ofyn am gyfarfod.

Os na all y Rheolydd ddatrys yr anhawster a'ch bodloni'n llawn ymhen 5 diwrnod gwaith, bydd yn cadarnhau ei resymau'n ysgrifenedig a'ch hysbysu am eich hawl i fynd â'r mater ymhellach trwy broses apel i'r Bwrdd Rheoli.

Ar dderbyn eich apel, bydd y Bwrdd Rheoli yn trefnu i'ch cyfarfod i drafod eich rheswm dros apelio. Bydd y Bwrdd Rheoli yn gwneud ei benderfyniad ynglyn â'r achos ymhen 5 diwrnod gwaith. Bydd penderfyniad y Bwrdd Rheoli yn derfynol.

Os ydych am unrhyw reswm yn dymuno parhau â'r broses, medrwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Adeilad y Llywodraeth, Swydfeydd y Llywodraeth, Cyffordd Llandudno. LL31 9RZ – rhif ffôn 0300 790 0126

Hysbysir y Bwrdd Rheoli o bob cwyn a chaiff pob cwyn ei thrin yn sensitif a chyfrinachol. Cedwir gofnodion llawn o bob achos.

Honiad yn erbyn aelod o staff / gwirfoddolwr

Os oes honiad neu bryder yn cael ei nodi am aelod o staff, dylid hysbysu'r Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Gofal (Rheolydd)

Os yw'r aelod staff:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu gallai niweidio plentyn
- wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn (neu yn gysylltiedig â phlentyn); neu

- wedi ymddwyn tuag at blant neu blentyn mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai'n peri risg o niwed pe bai'n gweithio'n agos neu'n rheolaidd gyda phlant

rhaid i'r Feithrinfa hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddi-oed.

Honiad yn erbyn y Rheolydd / Person mewn gofal

Os oes honiad neu bryder yn cael ei nodi am y Rheolydd, (Person â Gofal) dylid hysbysu'r Person Cofrestredig ar y Bwrdd Rheoli.

Os yw'r Rheolydd:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu gallai niweidio plentyn
- wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn (neu yn gysylltiedig â phlentyn); neu
- wedi ymddwyn tuag at blant neu blentyn mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai'n peri risg niwed pe bai'n gweithio'n agos neu'n rheolaidd gyda phlant

rhaid i'r Feithrinfa hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddi-oed.

Honiad yn erbyn y Person Cofrestredig

Os oes honiad neu bryder yn cael ei nodi am Person Cofrestredig, dylid hysbysu'r Person mewn gofal a'r Bwrdd Rheoli.

Os yw'r Person Cofrestredig:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu gallai niweidio plentyn
- wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn (neu yn gysylltiedig â phlentyn); neu
- wedi ymddwyn tuag at blant neu blentyn mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai'n peri risg niwed pe bai'n gweithio'n agos neu'n rheolaidd gyda phlant

rhaid i'r Feithrinfa hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddi-oed.

Lle'n briodol caiff yr unigolyn/unigolion sydd â honiad yn eu herbyn eu gwahardd o'r gwaith tra cynhelir ymchwiliad llawn.

Cedwir cofnod cyfrinachol manwl o unrhyw amheuaeth neu honiad o gamdriniaeth yn erbyn plentyn sydd yn mynychu'r Feithrinfa, ynghyd â chofnod llawn o unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd a'r camau a gymerwyd. Cedwir y cofnodion hyn yn gyfrinachol hyd nes bydd y plentyn yn 25 oed.

Yn dilyn unrhyw achos neu honiad o gamdriniaeth rhoddir cefnogaeth lawn i'r plentyn gan staff y Feithrinfa.

RHIFAU FFON

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd:

01766 772577

Yr Heddlu mewn argyfwng:

999

Polisi datgelu pryder

Mae'n bwysig i Feithrinfa Dwylo Da bod unrhyw achos o dwyll, camymddygiad neu droseddu gan weithwyr neu swyddogion trwy unrhyw agwedd arall o waith y Feithrinfa yn cael eu hadrodd arnynt a'u trin yn briodol.

Lluniwyd y Polisi hwn i annog a rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth neu staff pe cyfyd yr angen, i fedru datgan eu pryderon am faterion sydd yn eu tyb hwy yn amhriodol, gan wneud hynny yn hyderus a difalais heb ofni cael eu herlid na'u cosbi, gyda'r gobaith y caiff eu pryderon eu cydnabod a'u datrys yn gyflym o fewn y corff yn unol a Deddf Datguddio Diddordeb Cyhoeddus 1998.

Mae'r Ddeddf Datguddio Diddordeb Cyhoeddus 1998 yn sicrhau amddiffyniad i'r rhai sy'n mynegi pryderon cyfreithlon ynglyn a materion penodol. Gelwir rhain yn "ddatguddiadau cymwys". Mae datguddiad cymwys yn ddatguddiad sy'n cael ei wneud mewn ewyllys da ac er budd y cyhoedd.

Mae datguddiad cymwys yn ddatganiad o wybodaeth sydd yn nhyb y sawl sy'n ei wneud, yn ddatganiad sy'n arddangos bod un neu fwy o'r canlynol yn cymeryd lle, wedi cymeryd lle, neu yn debygol o gymeryd lle yn y dyfodol: -

- Trosedd cyfreithiol

- Torri rhwymedigaeth cyfreithiol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Peri perygl i iechyd a diogelwch unigolyn arall
- Niweidio'r amgylchfyd/gweithle
- Ymgais fwriadol i guddio unrhyw un o'r uchod

Nid oes gofyn ar i'r cwynydd fod a thystiolaeth bod gweithred o'r fath yn cymryd lle, wedi cymryd lle neu'n debygol o gymryd lle – mae coel rhesymol yn ddigonol. Nid oes gan y cwynydd unrhyw gyfrifoldeb dros ymchwilio i'r mater – cyfrifoldeb y corff yw sicrhau bod ymchwiliad yn cymryd lle.

Mae gofyn ar i'r sawl sy'n mynegi datganiad o bryder fod: -

- Yn ddidwyll
- A choel rhesymol ar yr adeg y mae'n mynegi datganiad o bryder bod y wybodaeth sy'n cael ei ddatgelu ganddo/ganddi'n wir
- Heb fod yn gweithredu er budd ei hun
- Yn gweithredu er lles y cyhoedd

Dylai'r sawl sydd am fynegi datganiad o bryder wneud hynny i'r Rheolydd yn gyntaf, lle y gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater.

Os nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur y pryder, dylid codi'r mater gyda'r Bwrdd Rheoli, lle y gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn ymateb i'ch datganiad o bryder o fewn
10 diwrnod gwaith yn nodi'r camau a fwriedir eu cymeryd.

Os nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur y pryder, dylid codi'r mater gydag Arolygiaeth Gofal Cymru lle y gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater.

Pwysleisir na fydd Meithrinfa Dwylo Da yn goddef aflonyddu nac erlid ar unrhyw un o ganlyniad iddynt wneud datganiad o bryder a bydd y Feithrinfa yn gwarchod unrhyw un sy'n datgelu pryderon yn ddidwyll.

Bydd Meithrinfa Dwylo Da yn ymdrechu i fod yn deg â'r sawl y cyfeirir y datganiad o bryder tuag atynt gan roi cyfle iddynt fynegi eu fersiwn hwy o'r ddigwyddiadau/sefyllfa honiedig.

Bydd Meithrinfa Dwylo Da yn parchu dymuniad unrhyw un sydd am ddatgelu pryder yn ddi-enw. Rhaid sylweddoli fodd bynnag bod rhai achlysuron yn codi pryd y bydd gofyn ar i'r sawl sydd wedi datgan ei bryder, trwy drefniadau wedi eu cytuno, wneud datganiad fel rhan o dystiolaeth.

Os y gwneir honiadau maleisus neu flinderus o dan y Polisi hwn, ystyrir y mater yn fater difrifol iawn

Yswiriant y Feithrinfa

Mae'r Feithrinfa wedi ei yswirio gyda chwmni yswiriant cymwys ar gyfer y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Polisi Cyfrinachedd/GDPR

Nôd y Feithrinfa yw sicrhau y cedwir gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r staff, ymgeiswyr am swyddi, myfyrwyr ar leoliad gwaith, y rhieni/gofalwyr a'r plant yn unol â gofynion statudol cyfreithiol.

Mae Meithrinfa Dwylo Da yn ymrwymo i sicrhau prosesu diogel o theg o unrhyw ddata a dderbyniwn a byddwn yn cydymffurfio â Gofynion Rheoli Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR) ar bob achlysur. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn ystod cyn-ofal a gofal pob plentyn i alluogi'r Feithrinfa i ddarparu gwasanaeth priodol ac nid at unrhyw ddiben arall.

Yn unol â rheoliadau cadw gwybodaeth gofal plant, caiff y wybodaeth ei gadw tan i'r plentyn droi'n 25ain oed.

O bryd i'w gilydd, mae'n ofynnol arnom yn gyfreithiol i rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhai o asiantaethau'r Llywodraeth megis Arolygiaeth Gofal Cymru, sef y corff sy'n cofrestru, yn arolygu ac yn gweithedu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal yng Nghymru a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar brydiau ynghyd â phroffesiynolyddion meddygol mewn argyfyngau.

Os fyddwch chi am drafod unrhyw agwedd o'r uchod, mae croeso i chi fynegi hynny i aelod o staff.

Polisi Danfon a Chasglu /Plant o'r Ysgol/Cylchoedd Meithrin

Caniateir i un aelod o staff Meithrinfa Dwylo Da gerdded 8 o blant sy'n gymwys gyda'u gilydd o'r Feithrinfa i Ysgol Bro Lleu/ Cylch Meithrin, Pen y Groes i fynychu sesiynau addysgiadol yn yr ysgol / cylch trwy drefniant sydd wedi ei gytuno arno rhwng y rhieni/gofalwyr â'r Ysgol / Cylch Meithrin yn ddyddiol. Byddwn yn sicrhau diogelwch y plant trwy afael yn eu llaw a/neu ddefnyddio ataliwr diogelwch priodol lle bo angen.

Pan fo'r tywydd yn arw medrwn drefnu i gwmni tacsi lleol i ddanfon a/neu gasglu'r plant a bydd aelod o staff y Feithrinfa yn bresennol trwy gydol yr amser. Mae rhai aelodau o'r staff wedi eu hyswirio i gario'r plant yn eu ceir eu hunain. Mae'r Feithrinfa wedi prynu cadeiriau car addas, diogel a phriodol ar gyfer hyn.

Hwyluso'r trefniant yw bwriad Meithrinfa Dwylo Da trwy hebrwng y plant yn ddiogel i'r sesiwn yn yr ysgol yn unol â chyfarwyddyd y rhieni/gofalwyr ac yna ar ddiwedd y sesiwn yn yr ysgol, eu hebrwng yn ol i'r Feithrinfa.

Os y bydd plentyn yn mynd yn sal tra'n yr ysgol, bydd gofyn ar i'r ysgol gysylltu â'r rhieni/gofalwyr yn hytrach na'r Feithrinfa a chyfrifoldeb y rhieni/gofalwyr fydd trefnu i'w nol o'r ysgol.

Cyfrifoldeb y rhieni/gofalwyr yw'r plentyn tra mae yn yr ysgol. Ni fydd y Feithrinfa'n gyfrwng i drafod y plentyn gyda'r ysgol na chario negeseuon rhwng y cartref a'r ysgol.

Ni fydd gostyngiad yn y gofal craidd yn sgil y trefniant yma h.y. bydd ffioedd dyddiol ac wythnosol y Feithrinfa'n parhau i sefyll fel ag y maent.

Mae croeso i chi drafod y ddarpariaeth yma gyda'r Rheolwr os fyddwch am gael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth neu i drafod mynychu sesiynau mewn pentrefi cyfagos.

Ffurflen Danfon a Chasglu Plant o'r Ysgol/Cylchoedd Meithrin



Rydym yn gweinyddu cynllun sydd yn galluogi eich plentyn i fynychu sesiynau meithrin yn Ysgol Bro Lleu lle mae modd rhesymol i ni fedru gwneud hynny.

Nid ydym yn danfon plant i fynychu'r ysgol gynradd erbyn 9 o'r gloch.

Os oes gennych ddiddordeb yn y Cynllun hwn a fyddwch cystal â chwblhau'r isod o ran anghenion eich plentyn.

ENW'R PLENTYN :.....

Amser danfon i'r ysgol	Amser casglu o'r ysgol

Rwy'n awyddus i staff Meithrinfa Dwylo Da ddanfon a/neu gasglu fy mhlentyn yn unol a'r uchod.

Arwyddwyd

Dyddiad

Nodwn mai eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw drefniant sydd i'w wneud gyda'r Ysgol neu'r Ysgol Feithrin o ran cadw lle i'ch plentyn yn ogystal ag unrhyw gysylltiad perthnasol pellach.

Cynnig Gofal Plant 30 Awr - Llywodraeth Cymru

Gall plant sy'n gymwys gael yr hawl i hyd at 20 awr o ofal plant sy'n cael ei gyllido gan y Llywodraeth yn ystod tymor yr ysgol, yn ychwanegol at y 10 awr sy'n cael ei ddarparu'n barod gan y Cyfnod Sylfaen.

Yn ystod y 9 wythnos o wyliau'r ysgol, gall rhieni/gofalwyr dderbyn hyd at 30 awr o ofal plant.

Gall plant sy'n gymwys dderbyn y cynnig o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, tan y mis Medi yn dilyn eu pedwerydd pen-blwydd, pan fyddant yn cychwyn ar addysg llawn amser.

Gall rhieni/gofalwyr ddewis unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig sydd yn addas i'w hamgylchiadau personol a theuluol, boed yn y sir neu'r tu allan, trwy gytuno gyda'r darparwr a'r awdurdod lleol. Nid oes yn rhaid i'r gofal plant gael ei roi gan yr un darparwr â darpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

Pwy sy'n gymwys?

Ewch ar wefan Cyngor Gwynedd am fwy o wybodaeth.

Gofal Plant Di-Dreth

Mae gofal plant di-dreth yn gynllun Llywodraeth y DU gyfan felly mae'n cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn rhedeg trwy gyfrif gofal plant ar-lein y gallwch dalu arian iddo i dalu cost gofal plant gyda darparwr cofrestredig. Mae opsiwn all-lein ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein (trwy linell gymorth gofal plant).

Rydych chi'n talu arian i mewn i'r cyfrif ar-lein ac mae'r Llywodraeth yn ychwanegu arian (a elwir yn ychwanegiad) i'r cyfrif. Yna gallwch ddefnyddio'r cyfrif i dalu am eich gofal plant, ar yr amod bod eich darparwr gofal plant wedi'i gofrestru i dderbyn taliadau o'r cynllun. Dim ond os mai'r prif reswm dros hynny yw eich galluogi i weithio y gallwch dalu am ofal plant.

Polisi tripiau neu mynd am dro y tu allan i'r Feithrinfa



Byddwn ar adegau, pan fo'r tywydd yn ffafriol yn mynd a'r plant am dro.

Byddwn ar bob achlysur yn glynu wrth safonau'r Arolygiaeth Gofal Cymru yng nghyd-destun niferoedd staff/plant.

Byddwn yn gwneud asesiad risg ar ffurflen briodol cyn cychwyn o'r adeilad er sicrhau lles a diogelwch y plant.

Bydd y staff yn cario bag cymorth cyntaf a ffon symudol sy'n cynnwys rhifau ffon cyswllt argyfwng ar gyfer pob plentyn, diod pan fo'r tywydd yn boeth ac eli haul yn ogystal ag unrhyw feddyginiaeth pe byddai angen ar gyfer unrhyw un o'r plant.

Gallwn fod yn mynd i'r caffi i gael teisen neu i'r siop, mynd i'r llyfrgell, i Plas Silyn, am bicnic – rhywbeth syml o fewn y pentref sy'n ddifyr ac yn addysgiadol.

Byddwn yn gwisgo'r plant yn addas.

Byddwn yn sicrhau fod o leiaf un aelod o'r staff sy'n mynd á'r plant am dro yn meddu ar dystystgrif cymorth cyntaf.

Gall y plant fod mewn 'bygi' neu bram neu'n gafael llaw gyda thenyn diogelwch yn ei le.

Cyfrifoldeb y staff yw sicrhau diogelwch y plant ar dripiau y tu allan i'r Feithrinfa.

Enw'r plentyn Rwy'n rhoi fy nghaniatad i'm plentyn gael mynd am dro gyda'r staff yn unol â'r uchod. Arwyddwyd

Enw'r plentyn Nid wyf yn rhoi ganiatad i'm plentyn gael mynd am dro gyda'r staff yn unol â'r uchod. Arwyddwyd

Tynnu llun eich plentyn i bwrpas neilltuol

Mae'r Feithrinfa yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac amddiffyn y plant sydd yn ein gofal ac mae hyn yn cynnwys osgoi unrhyw gamddefnydd o ddelweddau ohonynt. Gall lluniau o'r plant gael eu defnyddio ar gyfer llyfr trysor, arddangosfeydd ar waliau'r Feithrinfa neu at weithgareddau'r Cynfod Sylfaen. Mae'r lluniau'n cael eu cadw'n ddiogel ar liniadur yn swyddfa'r Rheolwr sydd ar glo i'r cyhoedd.



Cwblhewch un o'r blychau isod i nodi eich dymuniad os gwelwch yn dda

Enw'r plentyn

Rwy'n rhoi fy nghaniatad i staff Meithrinfa Dwylo Da dynnu llun o'm plentyn i bwrpas dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen

Arwyddwyd

Dyddiad

Enw'r plentyn

Nid wyf yn rhoi fy nghaniatad i staff Meithrinfa Dwylo Da dynnu llun o'm plentyn i bwrpas dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Arwyddwyd

Dyddiad

Gweplyfr Meithrinfa Dwylo Da

Mae'r Feithrinfa wedi sefydlu tudalen Gweplyfr ar gyfer Dwylo Da. Mae'r dudalen yn agored i rieni a staff yn unig i dderbyn gwybodaeth am Dwylo Da.

Rhieni/gofalwyr y plant sydd yng ngofal y Feithrinfa a hwy yn unig fydd yn medru gweld lluniau eu plant a phlant eraill y Feithrinfa yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol.

Unwaith y bydd cytundeb Meithrinfa Dwylo Da gyda'r plentyn yn dod i ben bydd enwau rhieni/gofalwyr y plentyn hwnnw/honno yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o bobl sydd â mynediad i'n Gweplyfr.

Gofynnwn i chi beidio rhannu na thagio lluniau eich plentyn/plant os oes plentyn arall mewn unrhyw lun. Mae hyn yn holl bwysig fel ein bod yn cadw lluniau'r plant o fewn cylch aelodaeth preifat y Feithrinfa yn unig.

Cwblhewch un o'r blychau isod i nodi eich dymuniad os gwelwch yn dda

Enw'r plentyn

Rwy'n rhoi fy nghaniatad i'r Feithrinfa gynnwys lluniau o'm plentyn/plant ar Weplyfr Meithrinfa Dwylo Da

Arwyddwyd

Dyddiad

Enw'r plentyn

Nid wyf rhoi fy nghaniatad i'r Feithrinfa gynnwys lluniau o'm plentyn/plant ar Weplyfr Meithrinfa Dwylo Da

Arwyddwyd

Dyddiad

Eli haul

Wrth fynd allan awyr agored bydd y staff yn asesu'r angen am eli haul i osgoi llosg a phoen i'r plentyn.



Cwblhewch un o'r blychau isod i nodi eich dymuniad os gwelwch yn dda

Enw'r plentyn

Rwyf yn rhoi fy nghaniatad i staff Meithrinfa Dwylo Da roi eli haul ar fy mhlentyn/ plant fel bo angen

Arwyddwyd

Dyddiad

Enw'r plentyn

Nid wyf yn rhoi fy nghaniatad i staff Meithrinfa Dwylo Da roi eli haul ar fy mhlentyn /plant

Arwyddwyd

Meithrinfa Dwylo Da Cyf

Polisiau a Gweithdrefnau

Y rhan hwn i'w gwblhau a'i ddychwelyd i'r Rheolydd os gwelwch yn dda

Datganiad Rhieni/Gofalwyr

Rwyf wedi cael cyfle i ddarllen Llawlyfr Meithrinfa Dwylo Da.
Tystiaf fy mod yn derbyn y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r Feithrinfa.

ENW
CYFEIRIAD
ENW'R PLENTYN
ARWYDDWYD
DYDDIAD

Diolch am ddefnyddio ein gwasanaeth.